## Rhestr Sgiliau

**Cyfathrebwr da** – Rwyt ti'n mwynhau siarad â phobl ac rwyt ti'n esbonio pethau'n dda.

**Hyddysg mewn TG** – Rwyt ti'n dda gyda gemau cyfrifiadurol ac wrth deipio ar fysellfwrdd.

**Creadigol** – Rwyt ti'n dda am arlunio neu greu storïau neu ysgrifennu caneuon neu greu lluniau ar gyfrifiadur neu adeiladu pethau neu feddwl am gemau hwyl newydd neu feddwl am syniadau newydd i ddatrys problemau a gwneud pethau'n well. Mae creadigrwydd yn ymwneud â chreu pethau.

**Arloesol** – Rwyt ti'n dda am roi dy syniadau ar waith. Nid meddwl am bethau creadigol yn unig ond gwneud iddyn nhw ddigwydd.

**Trefnus** – Rwyt ti'n gallu cynllunio pethau neu gadw pethau'n daclus iawn.

**Cyfeillgar** – Rwyt ti'n dda am wneud ffrindiau a gwneud i bobl deimlo'n gyfforddus.

**Hyderus** – Rwyt ti'n gallu edrych ar sefyllfaoedd newydd gan deimlo'n hapus dy fod yn gallu rhoi cynnig arni.

**Chwaraewr Tîm** – Rwyt ti'n gweithio'n dda mewn grwpiau. Rwyt ti'n gwrando ar syniadau pobl eraill ac yn helpu i gydweithio.

**Blaengar** – Nid wyt ti'n aros i gael gwybod beth i'w wneud os oes gen ti syniad da. Os wyt ti'n gweld cyfle i wneud rhywbeth yn dda neu'n wahanol, rwyt ti'n mynd amdani.

**Mentrus** – Rwyt ti'n greadigol, yn arloesol ac yn flaengar. Rwyt ti'n defnyddio'r holl sgiliau hynny ac yn cynnig syniadau busnes gwych.

**Moesegol** – Rwyt ti'n meddwl ei bod hi'n bwysig bod yn dda ac yn deg. Rwyt ti'n meddwl am ganlyniadau dy weithredoedd.

**Uchelgeisiol** – Mae gen ti'r awydd i fod yn llwyddiannus.

**Galluog** – Mae gen ti'r rhinweddau a'r galluoedd i gyflawni llawer o bethau pan fyddi di'n trio.

**Hyblyg** – Rwyt ti'n gwrando ar syniadau pobl eraill ac yn gallu newid y ffordd rwyt ti'n gwneud rhywbeth, os yw'n well neu os yw'n eu helpu.

**Cyfrifol** – Rwyt ti'n gwneud penderfyniadau gofalus ac yn cymryd cyfrifoldeb drostyn nhw.

**Caredig** – Rwyt ti'n hoffi gwneud pethau neis ac rwyt ti eisiau rhoi hapusrwydd i bobl eraill.

**Rhesymegol** – Rwyt ti'n datrys problemau mewn ffordd dawel a gofalus.

## Fy sgiliau a thalentau

Y pethau rwy'n eu gwneud yn dda:

Fy sgiliau:

Y pethau rwy'n eu mwynhau:

Syniadau am swyddi:

# Gyrfaoedd - Adnoddau

## Dylunydd Digidol

**Beth ydych chi'n ei wneud?**

Rwy'n creu effeithiau gweledol ar gyfrifiadur. Weithiau rwy'n gwneud i bosteri neu lyfrau edrych yn neis, weithiau rwy'n creu effeithiau ar gyfer ffilmiau, weithiau rwy'n animeiddio.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**

Mae angen i chi dreulio llawer o amser yn dylunio cyn y bydd gennych chi ddigon o brofiad ar gyfer y swydd. Gallwch chi gael profiad yn y brifysgol neu ddysgu gartref.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**

Rwy'n gallu bod yn greadigol iawn, ac rwy'n gallu gweithio oriau sy'n addas i fi.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**

Weithiau rwy'n brysur iawn ac mae llawer o waith, ac weithiau mae'n dawel iawn, ac nid oes gen i ddim byd i'w wneud.

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**

Yn greadigol ac sy'n hoffi eistedd wrth gyfrifiadur drwy'r dydd.

## Chwaraewr Rygbi

**Beth ydych chi'n ei wneud?**

Rwy'n chwarae rygbi proffesiynol i Gymru.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**

Fe wnes i chwarae yn yr ysgol a gweithio'n galed. Fe wnes i gynrychioli fy sir ac yna cefais gynnig lle yn hyfforddi gydag un o'r timau rhanbarthol. Eleni cefais fy newis gan Gymru!

**Beth sy'n dda am eich swydd?**

Rwy'n cael teithio'r byd, cwrdd â llawer o bobl newydd a bod ar y teledu. Rwy'n ennill gemau ac rwyf i wedi ennill tlysau. Cefais i'r cyfle i chwarae o flaen 74,000 o bobl yn Stadiwm Principality.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**

Nid wyf i'n hoffi colli gemau ac weithiau nid ydych chi'n cael eich dewis i chwarae. Rwyf i wedi cael fy mrifo ac yna'n methu â chwarae. Gallwch chi wneud y rhan fwyaf o swyddi tan 65 oed ond mae'n debyg y bydd yn rhaid i mi roi'r gorau i hyn erbyn i mi fod yn fy 30au.

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**

Yn heini iawn ac yn hoffi chwaraeon a bod yn rhan o dîm.

## Artist

**Beth ydych chi'n ei wneud?**

Rwy'n creu cerfluniau ac yn paentio lluniau i bobl eu harddangos yn eu cartrefi.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**

Mae angen i chi fod yn artistig a dod o hyd i'ch arddull unigryw eich hun. Mae'r rhan fwyaf o artistiaid yn mynd i'r brifysgol i ddysgu technegau a cheisio dod o hyd i'w harddull eu hunain.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**

Rwy'n gweithio yn fy amser fy hun ac yn gwneud yr hyn rwyf i eisiau ei wneud.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**

Mae'n gallu bod yn anodd cael gwaith pan fyddwch chi'n dechrau fel artist. Mae'n cymryd amser i bobl gael gwybod amdanoch chi a phrynu eich gwaith. Weithiau nid ydych chi'n ennill llawer o arian.

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**

Yn greadigol iawn ac yn mwynhau celf.

## Person trin gwallt

**Beth ydych chi'n ei wneud?**

Rwy'n torri ac yn steilio gwallt.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**

Mae angen i chi hyfforddi yn y coleg neu mewn salon i ddysgu sut i dorri a steilio gwallt yn dda.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**

Rwy'n gallu bod yn greadigol iawn, ac yn gallu gweithio oriau sy'n addas i fi. Rydych chi'n cwrdd â llawer o wahanol bobl. Nid ydych chi byth yn gwybod pwy fydd yn eistedd yn eich cadair. Rwyf i wedi cyfarfod â phobl ddiddorol iawn fel enwogion a gwleidyddion.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**

Mae'n rhaid i fi sefyll drwy'r dydd ac mae fy nhraed yn blino.

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**

Yn greadigol, â steil ac yn hoffi siarad â phobl.

# Gyrfaoedd - Adnoddau

## Milfeddyg

**Beth ydych chi'n ei wneud?**
Rwy'n trin anifeiliaid sâl, fel meddyg ond ar gyfer anifeiliaid.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**
Mae angen i chi astudio gwyddoniaeth yn y coleg ac yna treulio pum mlynedd yn astudio yn y brifysgol. Mae'n cymryd amser hir i hyfforddi gan nad yw fy nghleifion yn gallu dweud wrtha i beth sy'n bod.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**
Rwy'n gwneud rhywbeth pwysig iawn, ac rwy'n cael fy nhalu'n dda. Hefyd, rwy'n cael bod gydag anifeiliaid drwy'r dydd!

**Beth sy'n wael am eich swydd?**
Rwy'n gweithio llawer o oriau ac mae'n drist iawn pan fydd anifail yn sâl iawn.

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**
Yn ofalgar, yn caru anifeiliaid ac yn dda mewn gwyddoniaeth.

## Gwyddonydd

**Beth ydych chi'n ei wneud?**
Mae llawer o wahanol fathau o wyddonwyr, ond rydym ni i gyd yn ceisio darganfod pethau am y byd nad oedd neb yn gwybod amdanyn nhw o'r blaen.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**
Mae angen i chi fod yn arbenigwr yn y maes gwyddoniaeth yr ydych yn ei ddewis. Mae hynny fel arfer yn golygu eich bod chi wedi gwneud llawer o astudio yn y brifysgol.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**
Rwy'n cael ymchwilio i ddirgelion a'u datrys ac rwy'n teimlo fy mod i'n gwneud rhywbeth sy'n wirioneddol bwysig.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**
Weithiau mae'n rhaid i mi wneud yr un tasgau, drosodd a throsodd.

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**
Yn rhesymegol, yn gofyn llawer o gwestiynau ac yn mwynhau gwyddoniaeth.

## Pensaer

**Beth ydych chi'n ei wneud?**
Rwy'n dylunio adeiladau fel tai neu westai.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**
Mae angen i chi astudio yn y brifysgol am amser hir. Yna mae angen i chi weithio gyda phenseiri profiadol tan eich bod chi'n barod i roi cynnig arni ar eich pen eich hun.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**
Rwy'n cael gwneud modelau enfawr o fy syniadau y bydd pobl yn eu gweld ac yn eu mwynhau am ganrifoedd. Rwyf i hefyd yn cael fy nhalu'n dda iawn.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**
Roedd yn rhaid i mi hyfforddi am amser hir iawn ac weithiau mae'n rhaid i mi ddylunio pethau nad ydw i'n eu hoffi.

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**
Yn greadigol ac yn dda mewn mathemateg.

## Cogydd

**Beth ydych chi'n ei wneud?**
Rwy'n coginio prydau bwyd i bobl.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**
Mae angen i chi hyfforddi yn y coleg ac yna dechrau gweithio gyda chogydd, tan i chi fod yn barod i fod yn gogydd eich hun.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**
Rwyf i wir wrth fy modd gyda bwyd ac mae'n fath o gelf i fi. Rwyf i wrth fy modd yn gweld pobl yn mwynhau fy mwyd. Mae llawer o waith tîm a hwyl yn y gegin.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**
Rwy'n gweithio oriau hir iawn ac ar fy nhraed drwy'r dydd. Rwy'n gweithio llawer o nosweithiau ac ar benwythnosau hefyd.

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**
Yn greadigol ac yn dwlu ar fwyd.

# Gyrfaoedd - Adnoddau

## Cadwraethwr

**Beth ydych chi'n ei wneud?**
Rwy'n helpu i warchod yr amgylchedd.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**
Fe wnes i ddechrau trwy wirfoddoli ar wahanol brosiectau. Yna es i i'r coleg a'r brifysgol i fod yn arbenigwr.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**
Rwy'n helpu i wneud y byd yn lle gwell. Rwy'n cael dysgu popeth am wahanol amgylcheddau, fel y traeth neu'r goedwig, ac yna gwneud yn siŵr bod pobl yn gofalu amdanyn nhw.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**
Weithiau mae'n rhaid i ni ddewis rhwng pobl a'r amgylchedd, sy'n anodd iawn.

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**
Yn ofalgar, yn dda mewn gwyddoniaeth ac yn hoffi natur.

## Meddyg

**Beth ydych chi'n ei wneud?**
Rwy'n helpu pobl sy'n sâl neu sydd wedi'u hanafu.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**
Es i i'r brifysgol am saith mlynedd ond mae'n rhaid i mi hyfforddi a dysgu drwy'r amser.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**
Rwy'n helpu pobl. Weithiau mae'n anodd gwybod beth sy'n gwneud rhywun yn sâl, felly gall fod fel datrys dirgelwch. Rwyf i hefyd yn cael fy nhalu'n dda iawn.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**
Rwy'n gweithio llawer ac mae'n drist pan fydd pobl yn sâl iawn ac nad ydyn nhw'n gwella.

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**
Yn ofalgar, yn glyfar ac yn gweithio'n galed.

## Gweithiwr i Elusen

**Beth ydych chi'n ei wneud?**
Rwy'n gweithio i elusen sy'n helpu pobl hŷn.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**
Fe wnes i wirfoddoli i'r elusen, gan gludo bwyd i bobl hŷn. Yna, fe wnes i gais am swydd amser llawn ac fe ges i hi!

**Beth sy'n dda am eich swydd?**
Rwy'n cael helpu llawer o bobl mewn angen. Mae'n gwneud i mi deimlo'n dda i wneud rhywbeth caredig a phwysig.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**
Mae yna gymaint o bobl y mae angen ein help arnyn nhw, gall fod yn drist iawn weithiau.

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**
Yn ofalgar, yn hoffi helpu ac yn gyfeillgar.

## Rheolwr Siop

**Beth ydych chi'n ei wneud?**
Rwy'n gofalu am siop. Rwy'n gwneud yn siŵr ei bod yn daclus ac yn gwneud yn siŵr bod y cwsmeriaid a'r staff yn hapus.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**
Cefais i swydd ar ddydd Sadwrn, mewn siop, pan oeddwn i yn yr ysgol. Ar ôl gadael yr ysgol, dechreuais i weithio yn y siop bob dydd. Fe weithiais i'n galed iawn ac roeddwn i'n dda yn fy swydd. Yna cefais i ddyrchafiad! Cefais i fwy o arian i gymryd mwy o gyfrifoldeb ac i fod yn gyfrifol am y siop.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**
Rwy'n hoffi helpu fy nhîm a fy nghwsmeriaid i gael y pethau sydd eu hangen arnyn nhw.
Rwy'n hoffi gwneud yn siŵr bod yr holl dasgau'n cael eu gwneud.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**
Weithiau, gall cwsmeriaid fod yn grac neu wedi cynhyrfu. Mae'n rhaid i fi fod y cyntaf i gyrraedd y bore a'r olaf i adael gyda'r nos.

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**
Yn gyfeillgar, yn hoffi helpu ac yn drefnus.

# Gyrfaoedd - Adnoddau

## Gwleidydd

**Beth ydych chi'n ei wneud?**

Rwy'n Aelod Seneddol. Rwy'n gwrando ar bobl o fy ardal, wedyn rwy'n mynd i'r Senedd ac yn pleidleisio dros bethau a fydd, yn fy marn i, yn helpu'r bobl hynny. Rwyf i hefyd yn ceisio helpu pobl o fy ardal i wella'r gymuned.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**

Roedd arfer bod swydd arall, hollol wahanol gen i. Yna cefais i fy ethol. Mae hyn yn golygu bod pobl wedi pleidleisio i fi fod yn AS iddyn nhw.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**

Rwy'n gallu gwneud bywydau pobl yn well a datrys problemau. Rwyf i hefyd yn cael pleidleisio ar gyfreithiau pwysig sy'n effeithio ar bawb.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**

Mae'n anodd rhoi'r gorau i weithio, wrth i bobl eich adnabod chi yn yr archfarchnad!

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**

Yn chwaraewyr tîm, yn hoffi datrys problemau, yn hoffi herio ffiniau ac yn hoffi gofyn cwestiynau.

*Diolch i Tonia Antonazzi am ei chymorth gyda'r wybodaeth hon am fod yn wleidydd.*

## Cyfreithiwr

**Beth ydych chi'n ei wneud?**

Rwy'n gwybod llawer am y gyfraith ac yn helpu pobl sydd angen ei deall. Efallai bydd rhywun wedi torri'r gyfraith neu efallai y bydd angen iddyn nhw wneud yn siŵr eu bod yn dilyn cyfraith sy'n gymhleth iawn.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**

Es i i'r Brifysgol, yna gweithiais gyda chyfreithwyr mwy profiadol wrth i mi wneud mwy o arholiadau.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**

Mae'n swydd bwysig iawn gan fy mod i'n diogelu pobl. Rwy'n cael fy nhalu'n dda.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**

Os byddaf i'n gwneud camgymeriad, gall pobl fynd i lawer o drafferth ac mae'n rhaid i mi ddarllen llawer o lyfrau enfawr.

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**

Yn fanwl, yn glyfar ac yn hoffi dadlau.

## Criw Awyren

**Beth ydych chi'n ei wneud?**

Rwy'n helpu pobl i deimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel ar awyrennau.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**

Fe wnes i brentisiaeth, lle'r oeddwn i'n gweithio ac yn dysgu ar yr un pryd.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**

Rwy'n teithio ledled y byd. Rwy'n cwrdd â llawer o bobl ddiddorol.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**

Rwy'n teithio gymaint fy mod i'n blino weithiau.

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**

Yn gyfeillgar ac yn hoffi teithio.

## Ffotograffydd

**Beth ydych chi'n ei wneud?**

Rwy'n tynnu lluniau ar gyfer papurau newydd, gwefannau ac achlysuron arbennig.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**

Fe wnes i lawer o ymarfer. Fe wnes i rai cyrsiau byr ac yna rhagor o ymarfer.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**

Rwy'n cael bod yno ar ddiwrnodau arbennig iawn, fel priodasau a phen-blwyddi. Rwy'n cael bod yn greadigol a gwneud i bethau edrych ar eu gorau.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**

Weithiau mae'n anodd gwneud i bethau edrych yn neis, fel os yw'r tywydd yn wael iawn. Nid wyf i'n cael fy nhalu'n rheolaidd felly mae'n rhaid i mi chwilio am waith bob amser.

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**

Yn greadigol ac yn mwynhau bod yn yr awyr agored.

## Hyfforddwr Ffitrwydd

**Beth ydych chi'n ei wneud?**
Rwy'n dangos i bobl beth i'w wneud yn y gampfa ac yn eu helpu i fod yn heini neu i gadw'n heini.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**
Rwyf i wrth fy modd yn mynd i'r gampfa, felly fe wnes i gwrs i helpu fy hun. Yna fe wnes i ddechrau helpu fy ffrindiau i fod yn fwy heini, yna fe wnaeth rhywun gynnig fy nhalu i fod yn hyfforddwr personol iddyn nhw.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**
Rwy'n cael treulio fy holl amser yn y gampfa. Rwy'n cael helpu pobl i gyflawni eu nodau a theimlo'n iach.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**
Weithiau nid yw'r tâl yn dda iawn.

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**
Yn heini, yn hoffi helpu ac yn gyfeillgar.

## Entrepreneur

**Beth ydych chi'n ei wneud?**
Rwy'n rhedeg fy musnes fy hun.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**
Fi wnaeth ei chreu hi. Roedd gen i syniad da, fe wnes i fenthyg rhywfaint o arian ac yna dechrau gwerthu i gwsmeriaid.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**
Fi sy'n berchen ar y busnes, felly rwy'n cael penderfynu popeth sy'n digwydd ynddo.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**
Mae'n waith caled iawn, oriau hir ac mae llawer o gyfrifoldeb.

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**
Yn fentrus, yn greadigol ac yn gweithio'n galed.

## Plymwr

**Beth ydych chi'n ei wneud?**
Rwy'n gosod ac yn trwsio pibellau sy'n cario nwy neu ddŵr drwy eich cartref.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**
Ar ôl gadael yr ysgol, cefais i brentisiaeth. Roeddwn i'n dysgu a gweithio ar yr un pryd er mwyn i mi allu cael y sgiliau yr oedd eu hangen arnaf i.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**
Rwy'n cael cwrdd â llawer o bobl ac yn ennill cyflog da. Rwy'n gweithio i mi fy hun nawr ac mae hynny'n golygu fy mod i'n gallu dewis fy oriau gwaith fy hun.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**
Weithiau mae'n rhaid i mi drwsio toiledau sy'n arogli'n wael!

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**
Yn rhesymegol, yn hoffi gweithio gyda'u dwylo ac yn hoffi gweithio mewn gwahanol leoedd pob dydd.

## Pennaeth Saesneg mewn Prifysgol

**Beth ydych chi'n ei wneud?**
Rwy'n bennaeth yr adran Gwasanaethau Hyfforddi'r Iaith Saesneg mewn prifysgol. Rwy'n rheoli 50 o bobl sy'n addysgu Saesneg.

**Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?**
Fe wnes i hyfforddi i addysgu Saesneg fel ail iaith ym Mhrifysgol Abertawe ar ôl graddio fel athro ysgol gynradd. Roedd y cymhwyster hwn yn wych oherwydd roeddwn i'n gallu teithio'r byd i ddysgu Saesneg i bobl ryngwladol. Es i i Japan, Twrci, Prague, Hwngari a Barbados! Ar ôl gorffen teithio, des i adref i Abertawe ac oherwydd fy mod i wedi dysgu bob haf yn y brifysgol cefais gynnig swydd amser llawn fel tiwtor. Dros y blynyddoedd rwyf i wedi cymryd mwy o gyfrifoldeb.

**Beth sy'n dda am eich swydd?**
Mae pob diwrnod yn wahanol. Rwy'n cael cwrdd â phobl o bob rhan o'r byd ac yn gallu teithio i leoedd anhygoel hefyd.

**Beth sy'n wael am eich swydd?**
Rwy'n methu â meddwl am unrhyw beth!

**Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:**
Â diddordeb mewn teithio a gwahanol ddiwylliannau, yn hoffi rhoi cynnig ar syniadau newydd ac yn hoffi helpu pobl i ddysgu.

*Diolch i Joanne Parfitt am ei chymorth gyda'r wybodaeth hon am fod yn Bennaeth Adran yn y Brifysgol.*

Beth ydych chi'n ei wneud?

Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?

Beth sy'n dda am eich swydd?

Beth sy'n wael am eich swydd?

Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:

Beth ydych chi'n ei wneud?

Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?

Beth sy'n dda am eich swydd?

Beth sy'n wael am eich swydd?

Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:

Beth ydych chi'n ei wneud?

Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?

Beth sy'n dda am eich swydd?

Beth sy'n wael am eich swydd?

Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd:

Beth ydych chi'n ei wneud?

Sut mae rhywun yn cael y swydd hon?

Beth sy'n dda am eich swydd?

Beth sy'n wael am eich swydd?

Mae'r swydd hon yn dda i bobl sydd: